Llangrannog

Pentref ar arfordir gorllewin Cymru, yng Ngheredigion, yw Llangrannog. Yn ôl cyfrifiad 2001, mae tua 800 o bobl yn byw yno gyda 51% ohonynt yn siarad Cymraeg. Saif y pentref ar waelod dyffryn yr afon fechan, Hawen. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, adeiladu llongau oedd y diwydiant mwyaf llewyrchus yn Llangrannog a gwelwyd nifer fawr o longau'n cael eu hadeiladu ar y tywod. Tyfodd i fod yn borthladd prysur a chafodd tunelli o lo eu hallforio o'r pentref glan môr hwn. Y diwrnodau yma, twristiaeth sy'n cyfrannu fwyaf at yr economi leol gyda nifer o dai gwreiddiol y pentref erbyn hyn yn fythynnod gwyliau. Y traeth naturiol wrth gwrs sy'n denu'r ymwelwyr ac mae'r ogofâu sydd yno'n llawn hanes diddorol.

Mae gan Langrannog ddwy dafarn, sef Y Ship a'r Pentre Arms sy'n gartref i nifer o gymeriadau lliwgar wrth iddynt fwynhau peint achlysurol o gwrw. Ond nid yw pawb yn cael yr un croeso ac mae'n debyg y cafodd Dylan Thomas ei wahardd o'r Pentre Arms am iddo helpu'i hunan i'r cwrw!

I'r rhan fwyaf o bobl, y peth mwyaf trawiadol am draeth Llangrannog yw Carreg Bica. Darn enfawr o graig ydyw sy'n eistedd ar y traeth fel hen wrach flinedig. Cred rhai mai dant y cawr Bica oedd yn byw yn ardal Ceredigion ydyw. Mae'n degyg iddo ddioddef o'r ddanodd ac un diwrnod roedd yn rhaid iddo boeri'i ddant allan ar y traeth.

Fodd bynnag, Gwersyll yr Urdd, Llangrannog yw'r atyniad mwyaf wrth gwrs ac mae miloedd o blant yn ymweld â'r gwersyll yn flynyddol. Cynhelir cyrsiau Cymraeg i blant, oedolion a theuluoedd a chynhelir y cwrs teulu eleni eto ym mis Awst. Dyma gyfle gwych i deuluoedd ddysgu'r Gymraeg gyda'i gilydd. Cysylltwch â'r gwersyll am fwy o wybodaeth.

Ewch ymlaen i gwblhau'r tasgau er mwyn dysgu mwy am Langrannog!